Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Caroline Turner
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
LD1 5LG

7 Tachwedd 2019

Annwyl Caroline

**Chweched Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Datganiad Blynyddol 2018/19**

Mae Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn nodi dyletswyddau statudol awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arolygu a hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â'r gofynion statudol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni asesiad o Ddatganiad Blynyddol gwasanaeth llyfrgell eich awdurdod ar gyfer 2018/19 ac mae'r adroddiad llawn ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Hon yw'r ail flwyddyn o asesiadau dan y chweched fframwaith. Canfu'r dilyswr allanol, mewn ymgynghoriad â Grŵp Cyfeirio yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a thri phennaeth gwasanaethau llyfrgell:

- Gwnaeth Powys fodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a bodloni un ohonynt yn rhannol.
- O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Powys 7 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.
- Mae gwasanaeth llyfrgell Powys yn parhau i gyflawni'n dda ar gyfer ei gymunedau gwasgaredig, gyda gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd, y mae tystiolaeth ohonynt i'w gweld mewn datganiad manwl a thrylwyr. Cynhaliwyd yr oriau agor, ac mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau, ac wrth ddatblygu gwasanaethau darllen ar y cyd. Mae cyfraniad partneriaid a gwirfoddolwyr yn hanfodol i'r datblygiadau hyn fodd bynnag. Mae'r gwariant cymesurol ar ddeunyddiau yn dal i fod yn isel iawn, ond mae'r gwasanaeth wedi gwella ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, gan ei alluogi i gyrraedd y safon, ac mae hefyd yn bodloni'r gofynion o ran bodloni ceisiadau. Erys arwyddion y gallai'r cyllidebau grebachu, gydag adolygiad o'r gwasanaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u cynllunio ar gyfer 2019/20, gan fwydo i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gwasanaethau diwygiedig, a rhoi modelau gwasanaeth newydd ar waith. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith a gaiff unrhyw newidiadau i'r seilwaith cyflawni cyfredol ar gymunedau mwy gwledig Powys, a'u mynediad at ystod lawn o wasanaethau llyfrgell.

Rwy'n ddiolchgar i'ch gwasanaeth llyfrgell am gyflwyno’r datganiad eleni ac am gydweithio â'r asesydd annibynnol a swyddogion Llywodraeth Cymru ar y gwaith pwysig hwn.

Mae’r llythyr hwn hefyd i’ch hysbysu yn dilyn trafodaethau â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, rwy’n cynnig ymestyn y Fframwaith Safonau cyfredol Llyfrgelloedd *Cysylltiedig ac Uchelgeisiol; chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20* am flwyddyn arall, gyda’r flwyddyn adrodd olaf yn 2020/21. Rwy’n fodlon bod y Fframwaith yn parhau i fod yn addas at y diben ac o ran cynllunio a chyflenwi gwasanaeth, y byddai’r gwasanaethau llyfrgell yn elwa ar y parhad hwn yn y Safonau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiad neu'r broses asesu, cysylltwch â Mary Ellis, y Pennaeth Datblygu Archifau drwy anfon e-bost at: mary.ellis@gov.wales

Yn gywir



Dr Nicky Guy
Dirprwy Gyfarwyddwraig – Is-adran Amgueddfeydd, Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Caroline Turner
Chief Executive
Powys County Council
County Hall
Llandrindod Wells
LD1 5LG

7 November 2019

Dear Caroline

**Sixth Assessment Framework for Welsh Public Library Standards: Annual Return 2018/19**

The Public Libraries and Museums Act 1964 sets out the statutory duties of public library authorities to "*provide a comprehensive and efficient library service"* and makes it a duty of the Welsh Ministers "*to superintend and promote the improvement"* of public library services in Wales. In accordance with these statutory requirements the Welsh Government has completed its assessment of your authority's library service Annual Return for 2018/19, and the full report is attached to this letter.

This is the second year of assessment under the sixth framework. The external validator, in consultation with a Reference Group comprising Welsh Government officials and three heads of library services, found that:

- Powys met 11 of the 12 core entitlements in full, and partially met 1.
- Of the 10 quality indicators which have targets, Powys achieved 7 in full, 1 in part and did not achieve 2.
- Powys library service continues to deliver well for its dispersed communities, with improvements across a number of areas, evidenced by a thorough and detailed return. Opening hours have been maintained, and the service has extended its provision in terms of training, events and activities, and in the development of shared reading services. The contribution of partners and volunteers is however integral to these developments. Proportionally expenditure on materials is still very low, but the service has improved its investment in Welsh language resources, enabling achievement of the standard here, and also now meets the requirements in relation to supply of requests. There remain indications that budgets may reduce, with a service review and public consultation planned for 2019/20, feeding in to the development of a revised service strategy, and the implementation of new delivery models. Careful account will need to be taken of how any changes to the current delivery infrastructure will impact on Powys' more rural communities, and their access to a full range of library services.

I am grateful for the support from your library service in submitting this year's return and liaising with officials on this important piece of work.

This letter is also to inform you that following discussions with the Society of Chief Librarians Wales, I am proposing to extend the current Framework of Standards *Connected and Ambitious Libraries: the sixth quality framework of Welsh Public Library Standards 2017-20* for a further year with the last year of reporting being 2020/21. I am content that the Framework remains fit for purpose and, in terms of term of planning and service delivery, library services would benefit from this continuity in the Standards.

Should you have any queries concerning the report or the assessment process, please contact Mary Ellis, email: mary.ellis@gov.wales

Yours sincerely

Dr Nicky Guy
Deputy Director – Museums, Arts, Archives and Libraries Division

Museums, Archives and Libraries Division
Welsh Government, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR.

Tel: 0300 062 2112
E-mail: MALD@gov.wales
Website: http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/museums-archives-libraries/

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.